**Pennaeth Addysg (Dros Dro)**
**Head of Education (Interim)**
Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
owenowens@gwynedd.gov.uk


Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgolion Gwynedd

Annwyl Gyfaill

***Par: Toriadau i grantiau 2014-15***

Atodaf lythyrau oddi wrth Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, sy'n cyfeirio at y gofyn sydd arno i gwtogi ar wariant ei adran *yn ystod y flwyddyn hon (2014-15)*. Mae'n nodi ynddynt ei fod yn ceisio sicrhau gostyngiad cyffredinol o hyd at £5 miliwn o gyllidebau grantiau i ysgolion.

Ar hyn o bryd, dydy'r manylion ynglŷn â'r toriadau i'r gwahanol grantiau ysgolion ddim yn hysbys, ac felly nid ydym mewn sefyllfa i adnabod sut y bydd y toriadau yn effeithio'r Consortiwm, Gwynedd nag ysgolion unigol. Ond, mae'n anochel y bydd y toriadau yn effeithio ar ein hysgolion. Er gwaethaf ein hymrwymiad i geisio arbed ysgolion, fe all y toriadau yma effeithio rhywfaint ar yr arian sydd eisoes o fewn eich cyllidebau, gan gynnwys arian grant GEY.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd Awdurdod Addysg Gwynedd mewn trafodaethau gyda'r Consortiwm a Llywodraeth Cymru i geisio nodi'r ffordd orau o gyflawni'r gostyngiadau hyn yn ystod y flwyddyn.

Rhaid nodi mai camau Llywodraeth Cymru yw'r toriadau hyn ac nad ydynt unrhyw beth i wneud gyda'r Cyngor. Gallaf nodi nad oes bwriad gan y Cyngor i ofyn am ostyngiadau o fewn y flwyddyn i'ch cyllidebau craidd.

Pan fydd mwy o wybodaeth i law byddaf yn cysylltu ymhellach â chi.

Yn gywir

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Pennaeth Addysg Dros Dro**

Gwynedd Headteachers and Chairs of Governors

Dear Colleague

***Re: Cuts to grants 2014-15***

I attach letters from the Minister for Education and Skills, Huw Lewis, which refer to the call on him to cut the expenditure of his department *during this year (2014-15)*. He notes in the letters that he is seeking an overall reduction of up to £5m from the grants to schools budgets.

At this moment, the details of the cuts to different school grants are not known, and therefore we are not in a position to know how the cuts will affect the Consortium, Gwynedd or individual schools. However, it is inevitable that the cuts will affect our schools. In spite of our commitment to try and protect schools, these cuts could affect the money which is already in your budgets, including SEG money.

During the forthcoming weeks Gwynedd Education Authority will be in discussion with the Consortium and Welsh Government to try and find the best way in which to achieve these reductions during the year.

It must be noted that these cuts are Welsh Government steps and they are nothing to do with the Council. I can note that the Council has no intention of asking for in-year reductions to your core budgets.

When more information is available, I will contact you further.

Yours truly

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Pennaeth Addysg Dros Dro**
***Interim Head of Education***